



Codi Ymwybyddiaeth o'r **UNCRC** a'i Hybu Gweithdy 1



Oedolion sy'n Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

Cynulleidfa Darged

Pob oedolyn sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn Addysg, Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Iechyd.

Hyd

Hyd at 2 awr

Nodau

1. Codi a datblygu ymwybyddiaeth o'r UNCRC ymhlith oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
2. Eu galluogi i hybu a datblygu hyder plant a phobl ifanc yn effeithiol er mwyn iddyn nhw sicrhau eu hawliau o dan bob amgylchiad ac ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw yng Nghymru.

Y Deilliannau a Ragwelir

- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r UNCRC.
- Cael trosolwg ar gyd-destun polisi hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.
- Cydnabod manteision galluogi plant a phobl ifanc i sicrhau eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr UNCRC a chydabod y rhwystrau sy'n eu hatal.
- Nodi'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cadw'r momentwm, datblygu a helpu plant a phobl ifanc i sicrhau eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr UNCRC.





Adnoddau'r Gweithdai

Er mwyn sicrhau neges gyson am yr UNCRC a hawliau plant a phobl ifanc ac er mwyn helpu i gyflwyno pob gweithdy, mae'r canlynol ar gael:

1. Yr UNCRC – yn blaen: papur cefndir
2. Plygell o Adnoddau'r Gweithdai sy'n cynnwys ffotograffau enghreifftiol a'r rhestr o Erthyglau'r UNCRC

Gwefannau Gwerth Eu Gweld – mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys rhestr o wefannau sy'n cynnig cysylltiadau ymlaen i wefannau eraill ac amrywiaeth o adnoddau sydd wedi ennill eu plwyf a'r rheiny wedi'u datblygu'n unswydd i roi hwb i ddefnyddio'r UNCRC.

Adnoddau a Argymhellir – mae pobl sy'n gweithio ledled Cymru ym maes Addysg Hawliau wedi cynnig eu rhestr nhw o argymhellion ar gyfer adnoddau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer unrhyw waith ategol neu ddilynol.



Cynnwys	Gweithgaredd
Cyflwyno	<ol style="list-style-type: none">1. Cyflwyno – yr hwylusydd ac aelodau'r gweithdy.2. Trosolwg o'r gweithdy a sut mae'r sesiwn yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o'r UNCRC a'i hybu ymhlith oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
Torri'r garw 'Sut mae'n teimlo pan fydd pobl ddim yn gwrando'.	<ol style="list-style-type: none">3. Mewn parau, gofynnwch i'r aelodau ddisgrifio digwyddiad pan na wnaeth pobl wrando arnyn nhw ac adeg pan wrandawodd rhywun arnyn nhw a chymryd eu cyngor – sut roedd y ddau ddigwyddiad yn gwneud iddyn nhw deimlo?4. Rhannwch deimladau cadarnhaol a negyddol – yr hwylusydd i'w nodi ar siart droi wrth i'r grŵp roi adborth.
Beth yw'r UNCRC a pham mae arnon ni ei angen?	<ol style="list-style-type: none">5. Mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r aelodau amlinellu'r hyn y maen nhw'n ei wybod yn barod am yr UNCRC a pha ran y gallai ei chwarae i helpu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. (Bydd ystod eang o ymatebion i hyn ond gallwch ddod yn ôl atyn nhw ar ddiwedd y sesiwn.)



Cynnwys	Gweithgaredd
<p>Beth yw'r UNCRC a pham mae arnon ni ei angen?</p>	<p>6. Gan ddefnyddio'r UNCRC – yn blaen (A02)</p> <ul style="list-style-type: none">• Trafodwch sut yn eu barn nhw mae'r UNCRC yn effeithio arnyn nhw fel gweithwyr proffesiynol.• Ystyriwch yr UNCRC o safbwynt Llywodraeth y Cynulliad.• Gan ddefnyddio Erthygl 28 o'r UNCRC fel enghraifft (Mae gennych chi hawl i gael addysg) yn ei chyd -destun ehangaf i gyfeirio at faterion fel mynediad at addysg am fwyta'n iach, bwlio, neu oddefgarwch tuag at ddiwylliannau/crefyddau gwahanol, ystyriwch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod elfennau'r broses addysg yn eu lle, a pha ran y gall plant a phobl ifanc ei chwarae i ddylanwadu ar eu haddysg. Taflen enghreifftiol (A03) a allai gael ai haddasu at unrhyw Erthygl.
<p>Llwyddiannau a heriau ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth o'r UNCRC a'i hybu yn eu sefydliadau proffesiynol.</p>	<p>7. Pob aelod i ysgrifennu, ar 'nodyn gludiog', un rhwystr ac un cyfle ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth o'r UNCRC a'i hybu yn y rôl y maen nhw'n ei chwarae gyda phlant a phobl ifanc.</p> <p>8. Gosodwch y 'nodiadau gludiog' ar boster adborth.</p> <p>9. Hwyluswch drafodaeth ar y pwyntiau a godwyd.</p>



Cynnwys	Gweithgaredd
Gweithdai i blant a phobl ifanc	<p>10. Hwyluswch y cyfle i'r grŵp weithio drwy un o'r gweithdai (fel y bo'n briodol) sydd wedi'u datblygu ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none">• Plant o Oedran Cynradd• Pobl Ifanc o Oedran Uwchradd• Rhieni/gofalwyr• Sefydliadau heb fod yn ffurfiol <p>Rhannwch gopiâu o becyn y gweithdy perthnasol.</p> <p>11. Gosodwch yr aelodau mewn grwpiau a gofynnwch iddyn nhw edrych drwy'r gweithdy a disgrifio sut y gallen nhw ddefnyddio'r gweithdy fel gweithgaredd i godi ymwybyddiaeth o'r UNCRC. Cymerwch adborth ar syniadau'r grwpiau a thrafodwch strategaethau hwyluso.</p>
Y Camau Nesaf – cadw'r momentwm	<p>12. Gan ddefnyddio'r cofnod myfyrio a gweithredu (A04) – gofynnwch i'r aelodau enwi dau gam i godi ymwybyddiaeth (un gyda chydweithwyr a'r llall gyda phlant a phobl ifanc) ac yna rhannu un gyda'r grŵp.</p> <p>13. Gofynnwch a hoffai unrhyw un o'r grŵp rannu unrhyw rai o'u myfyrdodau.</p>



Erthygl 28 –

A03

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i gael addysg

Gan ddefnyddio Erthygl 28 o'r UNCRC yn ei chyd-destun ehangaf i gyfeirio at faterion fel mynediad at addysg am fwyta'n iach, bwlio, neu oddefgarwch tuag at ddiwylliannau/ crefyddau gwahanol, ystyriwch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod elfennau'r broses addysg yn eu lle, a pha ran y gall plant a phobl ifanc ei chwarae i ddylanwadu ar eu haddysg.

Defnyddiwch y tabl isod i gofnodi unrhyw drafodaeth cyn i'r grŵp roi adborth

Pwy?	Yn chwarae pa ran?
Llywodraethau	
Galluogwyr Addysg	
Pob oedolyn sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac sy'n gyfrifol amdanyn nhw o athrawon i staff cinio a gofalwyr ysgol.	
Rhieni	
Plant a phobl ifanc	



Cofnod Myfyrio a Gweithredu A04

Cofnod personol yw hwn, ichi gael cofnodi'ch myfyrdodau, eich syniadau a'ch gweithredoedd yn ystod y gweithdy ac wedyn.

Myfyrdodau

Cam 1: Un peth y byddaf yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r UNCRC ymhlith fy nghydweithwyr yw...

Cam 2: Un peth y byddaf yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r UNCRC ymhlith plant a phobl ifanc yw...